

RHAGARWEINIAD

Prif feysydd cynhyrchu lafant ym Mhrydain yw de a dwyrain Lloegr, gyda pheth cynhyrchu ar raddfa fechan ar Lannau Mersi a Sir Caerhirfryn. Mewn ymateb i nifer cynyddol o alwadau'n ymwneud â lafant, penderfynodd CALU sefydlu llain arddangos bychan yn Henfaes yn 2008.

PLANHIGION

Yn Chwefror 2008 archebwyd planhigion micro-modiwl o ddau fath o lafant (*Lavandula angustifolia*) – Hidcote a Munstead – gan Thompson and Morgan. Mae'r ddau fath hyn yn gryno eu maint ac yn cael eu plannu'n helaeth ym Mhrydain ac ystyrid hwy'n addas ar gyfer amodau gogledd Cymru.

RHOI MEWN POTIAU

Cyrhaeddodd y planhigion mewn dau ddanfoniad. Daeth y cyntaf, 252 o blanhigion Hidcote ar 10 Mawrth 2008 ac fe'u rhoddwyd mewn potiau plastig 9cm. Anfonwyd yr ail ddanfoniad o 252 o blanhigion Munstead ar 18 Mawrth 2008, ond ni wnaethant gyrraedd tan 25 Mawrth 2008. Roedd hyn yn golygu bod y planhigion wedi treulio gwyliau banc y Pasg mewn ystafell ddosbarthu yn rhywle. Roedd ôl difrod rhew a diffyg goleuni ar lawer o'r planhigion. Yn ogystal, roedd yn amlwg fod yr hambyrddau wedi bod â'u pennau i lawr gan fod rhai planhigion wedi syrthio allan o'u modiwlau'n gyfan gwbl tra bod eraill wedi'u gwasgu. O'r 252 o blanhigion, ni ellid defnyddio 73. Potiwyd y gweddill mewn potiau plastig 9cm ar 26 Mawrth 2008 gan ddefnyddio compost pydru amlbwrpas Humax.

TYFU'N FWY

Rhoddwyd y planhigion i dyfu mewn tŷ gwydr heb ei gynhesu tan 29 Ebrill. Yn ystod yr wythnos yn dechrau 22 Ebrill cawsant eu caledu (eu cadw allan yn ystod y dydd a'u rhoi i mewn dros nos). Cawsant eu trosglwyddo i lecyn awyr agored wedi'i amddiffyn â weiren netin. O 29 Ebrill tan 9 Mehefin cawsant eu dyfrhau fel bo'r angen a'u bwydo â bwyd planhigion Phostrogen (10g i 9 litr) bob wythnos (NPK 14:10:27).

PARATOI'R SAFLE YN Y CAE

Roedd y llecyn wedi cael ei ffensio cynt rhag cwingod a thyfwyd pannas yno yn 2007. Tynnwyd yr holl bannas erbyn Ionawr. Yna gadawyd y llecyn tan fis Mai ac erbyn hynny roedd mochlys grawnddu wedi ei orchuddio'n drwm (*Solanum nigrum*). Chwistrellwyd y rhain â Samurai (Glyphosate fel elfen weithredol) ar 30 Mai. Yna cafodd y tir ei droi cyn cael ei orchuddio gyda Mypex 2m o led wrth 55m o hyd.

TRAWSBLANNU

Cafodd y planhigion eu trawsblannu i'r cae ar 9 a 10 Mehefin (27 rhes o Munstead ar y diwrnod cyntaf, a gweddill y Munstead a'r Hidcote i gyd ar yr ail ddiwrnod). Nifer terfynol y planhigion a blannwyd allan oedd 228 Hidcote a 174 Munstead oherwydd cyfyngiadau lle. Mae tabl 1 yn dangos uchder cyffredin y planhigion pan gânt eu trawsblannu.

Gwnaed toriadau yn y Mypex a phlannwyd y planhigion gyda 40cm rhyngddynt yn y rhesi, a chyda 50cm rhwng rhesi.

GOFALU AM Y CNWD

Ar ôl cael eu trawsblannu i'r cae, nid yw'r planhigion wedi cael eu trin o gwbl ac eithrio ychydig chwynnu â llaw (yn bennaf gwlydd yr ieir, troellig yr yd, danadl poethion a mochlys grawnddu).

COLLEDION YN Y CAE

Er bod y cae wedi ei ffensio â netin rhag cwningod, llwyddodd cwningen i godi nifer o'r planhigion yn syth ar ôl eu plannu (deg Munstead ac un Hidcote). Cafwyd hyd i'r twll y daeth y cwningen drwyddo a'i gau. Ers hynny ni chafwyd unrhyw golledion pellach. Mae'r ddwy rywogaeth wedi dod ymlaen yn dda. Y taldra ar gyfartaledd yn awr yw:

Tabl 1: Uchder arferol y planhigion pan gânt eu trawsblannu, a'u uchder 10 wythnos yn ddiweddarach

	Uchder arferol wedi 10 wythnos mewn cae (cm)	Uchder arferol ar ôl trawsblannu (cm)
Munstead	5.3	19.1
Hidcote	5.6	23.0


COSTAU CYNHYRCHU

Drwy gydol y broses rydym wedi monitro'r mewnbwn (llafur a deunyddiau) yn ymwneud â sefydlu'r llain arddangos. Caiff y wybodaeth hon ei chrynhai yn y tabl isod:


Tabl 2: costau cynhyrchu ar gyfer 3 x 60m rhes o lafant yn CALU Henfaes, 2008

Eitem	Uned	Cost uned (£)	Nifer	Cost (£)
Planhigion micro-modiwl	yr un	0.16	250	39.00
Potiau 9cm	yr un	0.01	250	20.00
Hambyrddau dal potiau	yr un	0.72	21	15.00
Compost amlbwrpas Humax	litre	0.49	100litres	4.99
Llafur	awr	7.20	2.25hrs	16.20
Dyfrhau a monitro = 1awr yr wythnos	awr	7.20	10	72.00
Chwynladdwr	litr	5.36	<0.25 litr	1.00
Chwistrellu chwynladdwr	awr	7.20	1	7.20
Meithrin	awr	22.00	0.5	11.00
Plannu allan	Awr	6.50	10	65.00
Gosod Mypex	awr	7.20	2	14.40
Mypex	metr	1.00	60	60.00
Cyfanswm cost				£325.79

Mae'r lluniau canlynol yn dangos datblygiad y planhigion drwy chwe mis cyntaf y project.



22nd Ebril 2008 (Munstead)



9th Mehefin 2008 (Munstead)



22nd Awst 2008 (Hidcote)